Hawdd ei Ddeall

# Ein cynlluniau i godi arian ar wasanaethau yn Rhondda Cynon Taf

Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl

**Dywedwch wrthyn ni os gwelwch yn dda erbyn 7 Rhagfyr 2020**




Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan Gyngor Bwrdeistref Sir Rhondda Cynon Taf. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o **'Ymgynghoriad Cyllideb 202122 – Holiadur'**

**Hydref 2020**

# Sut i lenwi'r ffulrflen ymateb yma



Cwestiynau ydy'r rhain am ein cynllun i godi a gwario arian ar wasanaethau yn Rhondda Cynon Taf.



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl. Ceisiwch esbonio eich atebion os gwelwch yn dda. A rhoi eich meddyliau a'ch syniadau eich hun hefyd.




Fe fyddwn ni'n defnyddio eich syniadau i wneud **cyllideb** y flwyddyn nesaf

**Cyllideb** ydy'r arian mae cynghorau yn ei gael i dalu am wasanaethau cyhoeddus.



Efallai eich bod angen cefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rhywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod y geiriau mewn ysgrifen glas yn anodd i'w deall. Mae beth maen nhw'n feddwl mewn blwch. Rydych chi hefyd yn gallu gweld beth mae'r geiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 28**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Cyngor Bwrdeisdref Sir Rhondda Cynon Taf.**




Os gwelwch yn dda, anfonwch y ffurflen yma inni erbyn **7 Rhagfyr 2020.**



**Cyfeiriad:** Rhabost RSBU-HJUK-LSS
Ymchwil ac Ymgynghoriad
The Pavillions
Cwm Clydach
Tonypandy
CF40 2XX



**Ebost:** consultation@rctcbc.gov.uk




**Gwefan:** www.rctcbc.gov.uk



**Ffôn:** 01443 425014

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

# Cyflwyniad



Mae gennym ni lai o arian i wario ar **wasanaethau** nawr.



**Gwasanaethau** ydy pethau fel:


- Eich parc neu eich maes chwarae
- Eich canolfan chwaraeon lleol
- Trafnidiaeth cymunedol
- Tai gyda chefnogaeth



Ac mae'r gost o ddarparu **Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol** yn cynyddu.



Mae **Gwasanaehau Gofal Cymdeithasol** yn rhoi cefnogaeth i bobl sydd angen help ychwanegol i fyw yn eu cartref. Mae canolfannau dydd a gweithwyr cymdeithasol hefyd yn ofal cymdeithasol.



Rydyn ni eisiau gwneud ein gwasanaethau yn well. Mae hyn yn meddwl:

- ysgolion
- canol trefi a ffyrdd
- parciau ac ardaloedd chwarae.



Rhaid inni wneud dewisiadau anodd am sut rydyn ni'n gwario'r arian.

# Rhan 1 -Gwario arian ar ysgolion




Rydyn ni bob amser wedi anelu at wario cymaint ag rydyn ni'n gallu ar ein hysgolion. Er bod gennym ni lai o arian ar y cyfan, mae'r arian rydyn ni'n ei wario ar ysgolion wedi codi.



Mae gennym ni £161 miliwn i wario ar ein hysgolion.



Rydyn ni eisiau parhau i gefnogi ein hysgolion fel hyn. Mae costau rhedeg ysgolion yn codi. Rydyn ni eisiau codi'r arian mae ysgolion yn ei gael er mwyn inni dalu'r costau sydd yn cynyddu.

**1. Ydych chi'n meddwl y dylen ni godi'r arian mae ysgolion yn ei gael er mwyn inni allu talu'r holl gostau sydd wedi codi?**



**Ydw** ☐



**Nac Ydw** ☐



**Dim yn siŵr** ☐

**2. Ddylai ysgolion gael mwy o arian na gwasanaethau eraill?**




**Ie** ☐



**Na** ☐



**Dim yn siŵr** ☐



**Oes yna unrhyw beth arall rydych chi eisiau ei ddweud am ysgolion yn cael mwy o arian?**
Defnyddiwch y blwch isod i ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl:

# Fffioedd a thaliadau



Ffioedd a thaliadau ydy arian rydych chi’n ei dalu am rhai gwasanaethau. Rydyn ni’n cael tua **£19 miliwn** fel hyn.




Mae’r arian yma yn cael ei wario ar wella gwasanaethau pwysig.



Rydyn ni‘n meddwl bydd taliadau yn codi o 1.7%. Ond rydyn ni’n gallu gwneud taliadau yn uwch, yn is neu eu cadw’r un fath.

**3. Ydych chin meddwl y dylen ni newid y ffioedd a'r taliadau rydych chi'n eu talu am y gwasanaethau yn y rhestr isod? Ddylen nhw fod yn uwch, yn is neu aros yr un fath?**

| | Uwch | Is | Aros yr un fath |
|---|---|---|---|
| Canolfan hamdden talu a chwarae | ☐ | ☐ | ☐ |
| Ffioedd chwarae clybiau chwaraeon | ☐ | ☐ | ☐ |
| Taliadau meysydd parcio | ☐ | ☐ | ☐ |
| Tocynnau sinema | ☐ | ☐ | ☐ |
| Tocynnau oedolion Lido Pontypridd | ☐ | ☐ | ☐ |
| Parc Treftadaeth y Rhondda | ☐ | ☐ | ☐ |
| Pryd ar glud | ☐ | ☐ | ☐ |
| Taliadau Gofal Cymdeithasol Oedolion am wasanaethau gofal yn eich cartref eich hun | ☐ | ☐ | ☐ |
| Ffioedd Profedigaeth – ar ôl marwolaeth | ☐ | ☐ | ☐ |
| Dirwyon am bethau fel taflu sbwriel | ☐ | ☐ | ☐ |



**Oes yn unrhyw beth rydych chi eisiau ei ddweud am newidiadau i ffioedd a thaliadau?**
Defnyddiwch y blwch isod i ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl:

**4. Pa wasanaethau cyngor sydd fwyaf pwysig i chi?**

Dywedwch wrthyn ni pa wasanaethau rydych chi'n meddwl ddylai gael eu hamddiffyn.

Neu cael arian ychwanegol i barhau i redeg ar y lefel maen nhw'n gwneud nawr.

- Ysgolion ☐
- Llyfrgelloedd ac Addysg Oedolion ☐
- **Prentisiaethau**

  **Prentisiaeth** ydy pan mae person yn dysgu sgiliau ar gyfer swydd tra'n gweithio. Fel arfer maen nhw'n cael llai o gyflog oherwydd eu bod nhw'n dal i ddysgu. ☐

- Gwasanaethau ieuenctid ☐
- **Gwasanaethau mynediad, ymgysylltu a chynhwysiant.** Mae'r gwasanaethau yma yn gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu cymryd rhan yn eu cymuned. ☐
- Gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion ☐
- Gwasanaethau gofal cymdeithasol plant ☐
- Iechyd Cyhoeddus ☐
- Tai ☐

- Parciau ☐
- Ffyrdd a thrafnidiaeth ☐
- Gwasanaethau gwastraff ac **ailgylchu**

  > **Ailgylchu** ydy troi sbwriel yn rhywbeth rydyn ni'n gallu ei ddefnyddio eto.

  ☐

- **Gwasanaethau diwylliannol, twristiaeth a threftadaeth.** Mae'r gwasanaethau yma yn amddiffyn ac yn dathlu ein hanes a'n traddodiadau. Maen nhw hefyd yn edrych ar ôl lleoedd y mae pobl yn hoffi dod i ymweld â nhw ar gyfer hwyl a dysgu. ☐
- **Adfywio** a helpu pobl sydd allan o waith

  > **Adfywio** ydy gwella ardaloedd i'w gwneud nhw cystal neu yn well nag roedden nhw'n arfer bod.

  ☐

- Gwasanaethau hamdden fel pyllau nofio neu gampfeydd ☐
- Gwasanaethau cerddoriaeth ☐

# Ein cyllideb



Rydyn ni eisiau codi'r **Dreth Gyngor** o **2.85%** y flwyddyn nesaf.




**Treth Gyngor** ydy'r arian mae'n rhaid i chi ei roi i'ch awdurdod lleol i dalu am bethau fel ysgolion, ffyrdd, gwasanaethau cymdeithasol a pharciau.




Y flwyddyn diwethaf roedd gennym ni y cynnydd **lleiaf** mewn Treth Gyngor yng Nghymru. Fe wnaeth y rhan fwyaf o leoedd yng Nghymru godi eu treth gyngor o bron i 5%

**5. Ydych chi'n meddwl y dylen ni:**

Codi'r Dreth Gyngor o tua 3% a chadw gwasanaethau fel maen nhw. ☐

**NEU**

Cael llai o godiad yn y Dreth Gyngor a thorri'n ôl ar wasanaethau? ☐



Oes yna unrhyw beth rydych chi eisiau ei ddweud am hyn?
Defnyddiwch y blwch isod i ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl:



Rydyn ni eisiau codi'r **Dreth Gyngor** o **2.85%** y flwyddyn nesaf.

Mae hyn yn meddwl os oedd eich Treth Gyngor yn £1,000 y flwyddyn yma, fe fydd rhaid i chi dalu tua £28 yn fwy y flwyddyn nesaf. Neu 55c yn fwy bob wythnos.

# Gwario arian yn ofalus




Rydyn ni wedi bod yn gweithio yn fwy **effeithiol** dros y 10 mlynedd diwethaf ac wedi arbed £95 miliwn.

**Effeithiol** ydy bod yn well ar beth rydyn ni'n wneud a gwario arian yn ofalus, er mwyn gallu gwario llai o arian a dal i d darparu gwasanaethau y mae pobl eu hangen.




Rydy ni'n mynd i arbed **rhagor o arian** y flwyddyn nesaf drwy weithio **hyd yn oed yn fwy** effeithiol.

**6. Ydych chi'n meddwl dylen ni barhau i weithio fel hyn?**



**Ydw** ☐



**Nac Ydw** ☐



**Dim yn siŵr** ☐

# Ein arian wrth gefn



**Arian wrth gefn** ydy'r arian rydyn ni'n ei gadw rhag ofn i rhywbeth ddigwydd nad ydyn ni'n gallu cynllunio amdano.



Er enghraifft, fe wnaethon  ni wario dros £1 miliwn y flwyddyn diwethaf i gefnogi pobl ac i drwsio pethau ar ôl Storm Dennis.



Mae gennym ni ychydig dan £9 miliwn o arian wrth gefn nawr. Fe fyddwn ni'n dal i edrych ar hyn. Fe fyddwn ni'n dal i feddwl am y risgiau rydyn ni'n gallu eu wynebu. Ac fe fyddwn ni'n ychwanegu rhagor o arian i wneud yn siŵr bod gennym ni ddigon o arian wrth gefn.

**7. Ydych chi'n meddwl y dylen ni gadw arian wrth gefn fel hyn?**




**Ydw** ☐



**Nac Ydw** ☐



**Dim yn siŵr** ☐



**8. Oes yn unrhyw beth rydych chi eisiau ei ddweud am ein harian wrth gefn?**

Defnyddiwch y blwch isod i ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl:

# Rhan 2 – Beth sydd fwyaf pwysig inni



Mae yna 5 peth rydyn ni eisiau canolbwyntio arnyn nhw i wneud y defnydd gorau o'n hamser, arian a staff. Ac i ddarparu'r gwasanaethau gorau.

**Rydyn ni eisiau canolbwyntio ar:**



1. **Defnyddio technoleg i ddarparu gwell gwasanaethau, ac i weithio yn y ffyrdd gorau.**



2. **Defnyddio ein galluoedd a'n sgiliau i wneud arian.**



3. **Gwasanaethau sydd yn cefnogi pobl yn gynnar, cyn i broblemau ddigwydd neu fynd yn waeth.**



4. **Gwneud yn siŵr bod ein gwasanaethau gofal yn helpu pobl i fod yn annibynnol.**



5. **Gweithio yn y ffordd mwyaf effeithiol i arbed arian.**



**9. Ydych chi'n meddwl dylen ni fod yn canolbwyntio ar y 5 peth yma?**




**Ydw** ☐



**Nac Ydw** ☐



**Dim yn siŵr** ☐



**Oes yn unrhyw beth arall rydych chi eisiau ei ddweud am y pethau ddylen ni ganolbwyntio arnyn nhw?**

Defnyddiwch y blwch isod i ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl:

# Defnyddio ein harian i wella gwasanaethau

**10. Ydych chi'n meddwl y dylai'r cyngor fod yn gwario arian ar y pethau yma?**

Ticiwch y blychau rydych chi'n meddwl y dylai'r cyngor wario arian arnyn nhw.

- Ysgolion 21ain Ganrif - gwneud ysgolion yn well neu adeiladu ysgolion newydd. ☐
- Trwsio ffyrdd a gwneud trafnidiaeth yn well. ☐
- Ailgychlu a''r amgylchedd. ☐
- Gwella canol trefi ☐
- Gwneud canolfannau hamdden a lleoedd eraill ar gyfer hamdden yn well. ☐
- Gwella ardaloedd chwarae a pharciau. ☐
- Rhagor o ganolfannau gofal a chymunedol i helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol. ☐
- Swyddi, prentisiaethau, a lleoliadau gwaith i bobl sydd yn gadael addysg. ☐

Digwyddiadau a'r celfyddydau. Er enghraifft, gwella ein theatrau a'r pethau mae pobl eisiau dod i'w gweld. ☐

Cynllunio ar gyfer ac adeiladu amddiffynfeydd yn erbyn llifogydd. ☐

# Cydraddoldeb




Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod popeth rydyn ni'n ei wneud yn deg i bobl. Mae hyn yn cael ei alw yn **Cydraddoldeb**.

> **Cydraddoldeb** ydy trin pobl yn deg a gwneud yn siŵr bod gan bawb yr un cyfle mewn bywyd.

Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod gan bobl gydraddoldeb oherwydd:

- Eu hoedran.
- Os ydyn nhw'n fenyw neu yn ddyn neu yn disgrifio eu hunain mewn ffordd arall.
- Eu hanabledd.
- Eu hil neu gefndir. Er enghraifft, du, gwyn neu Asiaidd.
- Os ydyn nhw'n hoyw, lesbaidd, deurywiol neu yn syth.
- Eu crefydd.
- Os ydyn nhw wedi priodi, yn sengl neu mewn partneriaeth sifil.
- Os ydyn nhw'n feichiog.
- Yr iaith maen nhw'n ddewis ei defnyddio.



11. **Ydych chi'n meddwl y bydd ein cynlluniau yn trin pobl yn deg ac yn gwneud yn siŵr bod ganddyn nhw'r un cyfleoedd mewn bywyd?**




**Ydw** ☐



**Nac Ydw** ☐



**Dim yn siŵr** ☐



**Oes yna rhywbeth arall rydych chi eisiau ei ddweud wrthyn ni am gydraddoldeb?**
Defnyddiwch y blwch isod i ddweud wrthyn ni beth rydych chin feddwl:

# Yr iaith Gymraeg




Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu defnyddio'r Gymraeg pan maen nhw eisiau, a bod rhagor o bobl yn cael y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr nad ydy ein cynlluniau yn ei gwneud hi'n fwy anodd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg os ydyn nhw eisiau.

**12. Ydych chi'n meddwl y gallai ein cynlluniau ei gwneud yn fwy anodd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg os ydyn nhw eisiau?**



**Ydw** ☐




**Nac Ydw** ☐



**Dim yn siŵr** ☐





**Sut ydych chi'n meddwl rydyn ni'n gallu newid ein cynlluniau i'w gwneud hi yn fwy hawdd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?**
Defnyddiwch y blwch isod i ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl:



**Oes yna unrhyw beth arall rydych chi eisiau ei ddweud wrthyn ni am sut y gallai ein cynlluniau effeithio ar y Gymraeg?**
Defnyddiwch y blwch isod i ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl:

# Unrhyw beth arall




**Oes yna unrhyw beth arall rydych chi eisiau ei ddweud am ein cynlluniau ar sut rydyn ni'n gwario arian yn 2021 i 2022?**
Defnyddiwch y blwch isod i ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl:

# Dywedwch wrthyn ni amdanoch chi eich hun



Rydyn ni angen gwybod ychydig bach amdanoch chi er mwyn inni allu deall eich atebion yn well.




**Beth ydy eich cod post?**



**Pam wnaethoch chi lenwi'r ffurflen yma?**

- Rydw i'n byw yn Rhondda Cynon Taf ☐
- Rydw i'n rhedeg busnes yn Rhondda Cynon Taf ☐
- Rydw i'n gweithio i Gyngor Bwrdeisdref Sir Rhondda Cynon Taf ☐
- Rydw i'n perthyn i grŵp cymunedol yn Rhondda Cynon Taf ☐

Rheswm arall:

# Diolch




Diolch am lenwi'r ffurflen yma




Anfonwch y ffurflen yma inni os gwelwch yn dda erbyn **7 Rhagfyr 2020.**



**Cyfeiriad:** Rhadbost RSBU-HJUK-LSS
Ymchwil ac Ymgynghori
The Pavillions
Cwm Clydach
Tonypandy
CF40 2XX



**Ebost:** consultation@rctcbc.gov.uk



**Ffôn:** 01443 425014

# Geiriau anodd

### Prentisiaeth
Prentisiaeth ydy pan mae person yn dysgu sgiliau ar gyfer swydd tra'n gweithio. Fel arfer maen nhw'n cael llai o gyflog oherwydd eu bod nhw'n dal i ddysgu.

### Cyllideb
Cyllideb ydy'r arian mae cynghorau yn ei gael i dalu am wasanaethau cyhoeddus.

### Y Dreth Gyngor
Y Dreth Gyngor ydy arian mae'n rhaid i chi ei roi i'ch awdurdod lleol i dalu am bethau fel ysgolion, ffyrdd, gwasanaethau cymdeithasol a pharciau.

### Effeithiol
Effeithiol ydy bod yn well ar beth rydyn nin ei wneud a gwario arian yn ofalus, er mwyn inni allu gwario llai o arian a dal i ddarparu gwasanaethau mae pobl eu hangen.

### Cydraddoldeb
Cydraddoldeb ydy trin pobl yn deg a gwneud yn siŵr bod pawb yn cael yr un cyfle mewn bywyd.

### Ailgylchu
Ailgylchu ydy troi ein  sbwriel yn rhywbeth rydyn ni'n gallu ei ddefnyddio eto.

### Adfywio
Adfywio  ydy gwella ardaloedd i'w gwneud nhw mor dda neu yn well nag roedden nhw'n arfer bod.

## Arian wrth gefn

Arian wrth gefn ydy swm o arian rydyn ni'n ei gadw rhag ofn bod rhywbeth yn digwydd nad ydyn ni'n gallu cynllunio ar ei gyfer.

## Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol

Mae Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol yn darparu cefnogaeth i bobl sydd angen help ychwanegol i fyw yn eu cartrefi. Mae canolfannau dydd a gweithwyr cymdeithasol yn ofal cymdeithasol hefyd.